---

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ("Deddf 2021") yn sefydlu fframwaith cyfreithiol newydd ar gyfer cwricwlwm ac yn gwneud darpariaeth ynghylch asesu ar gyfer plant a disgyblion yng Nghymru ("y Cwricwlwm newydd i Gymru"). Mae adran 74(1) o Ddeddf 2021 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru wneud diwygiadau canlyniadol mewn perthynas â'r Ddeddf honno er mwyn rhoi iddi ei heffaith. Mae adran 75(1)(b) o Ddeddf 2021 yn darparu ymhellach y caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol.

Bydd y Cwricwlwm newydd i Gymru yn cael ei gyflwyno i blant a disgyblion fesul cam. Daw'r Cwricwlwm newydd i Gymru yn fandadol ar gyfer y grwpiau blwyddyn mewn ysgolion a lleoliadau eraill fel a ganlyn—

(a) o 1 Medi 2022 ar gyfer—
  (i) plant y darperir addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir ar eu cyfer,
  (ii) disgyblion sy'n cael addysg feithrin mewn ysgolion a gynhelir ac ysgolion meithrin a gynhelir,
  (iii) disgyblion yn eu blwyddyn derbyn, a
  (iv) disgyblion ym mlynyddoedd 1 i 6,
(b) o 1 Medi 2022 ar gyfer plant a disgyblion ym mlwyddyn 7 yn yr ysgolion hynny a'r lleoliadau eraill hynny pan fo cwricwlwm wedi ei ddarparu yn unol â Deddf 2021,
(c) o 1 Medi 2023 ar gyfer plant a disgyblion—
  (i) ym mlwyddyn 7, a
  (ii) ym mlwyddyn 8,
(d) o 1 Medi 2024 ar gyfer plant a disgyblion ym mlwyddyn 9,
(e) o 1 Medi 2025 ar gyfer plant a disgyblion ym mlwyddyn 10, ac
(f) o 1 Medi 2026 ar gyfer plant a disgyblion ym mlynyddoedd 11 i 13.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â phlant a disgyblion y darperir addysg iddynt—

(a) mewn ysgolion a gynhelir,
(b) mewn ysgolion meithrin a gynhelir,
(c) gan ddarparwyr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir,
(d) mewn unedau cyfeirio disgyblion, ac
(e) gan bersonau sy'n darparu addysgu a dysgu ar gyfer plentyn ac eithrio mewn ysgol a gynhelir, ysgol feithrin a gynhelir neu uned cyfeirio disgyblion yn rhinwedd trefniadau a wneir o dan adran 19A o Ddeddf Addysg 1996.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.